# Cyfarwyddwr Rheoli

Partneriaeth Actif
Canolbarth y De

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP | PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE

# Trosolwg o **Bartneriaeth Actif Canolbarth y De**

Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru i ddatblygu ein partneriaeth chwaraeon ranbarthol newydd.

Mae Chwaraeon Cymru ar siwrnai i newid y tirlun chwaraeon cymunedol ledled Cymru a sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu darparu. Y nod yw creu newid sylweddol yn y lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith pobl Cymru. Gyda'n gilydd rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i fod yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth:

*“Creu newid sylweddol yn iechyd a lles ein cymunedau lleol ni drwy gydweithio ar draws y rhanbarth, fel ein bod gyda’n gilydd yn mynd i’r afael ag anghydraddoldeb ac yn gwella lefelau gweithgarwch.”*

Bydd ein Partneriaeth yn dod â rhanddeiliaid allweddol ar draws Canolbarth y De at ei gilydd, rhanddeiliaid sy'n deall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni eu manteision.

Bydd ein Partneriaeth yn cael ei harwain gan wybodaeth a bydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei dull o weithredu, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol, gyda diben cyffredin yn cael ei gyflawni ar lefel leol gan sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ystod o gyfleoedd sy’n diwallu eu hanghenion orau.

Rydym yn awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio i’r eithaf ar y potensial ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol, a hefyd creu gweledigaeth gadarn a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws pob diwydiant.

Wrth galon y Bartneriaeth bydd Bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol.

Bydd y Bwrdd yn penodi rhwng chwech a deuddeg aelod, gan adlewyrchu diddordebau'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni uchelgais Canolbarth y De.

# Ein Hamcanion Strategol



## Ein Hamcanion Strategol:

### Creu Cymdeithasau Actif - Normau ac Agweddau Cymdeithasol:

• Creu newid patrwm ym mhob rhan o’r gymdeithas drwy wella gwybodaeth am, a dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o, fanteision niferus chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd, yn unol â gallu ac ym mhob oedran.

### Creu Amgylcheddau Actif – Gofod a Llefydd

• Creu a chynnal amgylcheddau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pawb, o bob oedran, i gael mynediad cyfartal i lefydd a gofodau diogel, yn eu dinasoedd a'u cymunedau, i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd, yn unol â gallu.

### Creu Pobl Actif – Rhaglenni a Chyfleoedd:

•Creu a hyrwyddo mynediad i gyfleoedd a rhaglenni, ar draws lleoliadau niferus, i helpu pobl o bob oedran a gallu i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol rheolaidd fel unigolion, teuluoedd a chymunedau.

### Creu Systemau Actif - Galluogwyr Llywodraethu a Pholisi


• Creu a chryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu, partneriaethau aml-sector, y gweithlu, eiriolaeth, systemau ymchwil a gwybodaeth ar draws sectorau i gyflawni rhagoriaeth mewn cynnull adnoddau a rhoi gweithredu cydlynol rhyngwladol, cenedlaethol ac is-genedlaethol ar waith.

# Ein Dull o Weithredu



**Bydd PACD yn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy roi’r egwyddorion arweiniol hyn ar waith:**

- Gwneud penderfyniadau ar sail data a gwybodaeth.
- Gweithredu gydag integriti, atebolrwydd a thryloywder.
- Blaenoriaethu baich gwaith a meysydd a all wneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynaliadwyedd a chynhwysiant ym mhob cam gweithredu.
- Mynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol-economaidd a gwledig sy'n wynebu'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.
- Rhoi buddiannau cyfranogwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau dull sy’n canolbwyntio ar y cyfranogwr o weithredu.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan ddarparu ar gyfer natur amrywiol y sector i sicrhau diogelwch, lles a llesiant pawb sy'n cymryd rhan.
- Sicrhau bod safonau diogelu yn cael eu bodloni ym mhob rhan o PACD.
- Denu buddsoddiad o ffynonellau cyllid eraill.
- Sefydlu sail ar gyfer sgyrsiau am sut gall Aelodau PACD wella fel sefydliadau.
- Datblygu fframwaith canlyniadau gyda ffocws, sy'n mynd i'r afael ag anghenion trigolion y rhanbarth.



# Cyfarwyddwr Rheoli

Mae hwn yn gyfle cyffrous i weithio gyda, ac ar ran, Bwrdd Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) i arwain a llywio cyfeiriad strategol y Bartneriaeth i gyflawni ei gweledigaeth a'i dyheadau.

Bydd gofyn i chi ymgysylltu'n strategol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i hyrwyddo nodau'r Bartneriaeth, rheoli gweithrediad PACD a sicrhau bod y Bartneriaeth yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Bydd hyn yn gofyn am ddull arwain "systemau cyfan" deinamig i greu newid sylweddol mewn diwylliant a meddylfryd ar draws sefydliadau partner. Bydd angen i chi ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid presennol a newydd, gan sbarduno arloesedd a chydweithredu a fydd yn arwain at sefydliad sy'n perfformio'n dda ac sy'n cyflawni'r weledigaeth ar gyfer PACD.

Bydd angen i'r rôl arwain o'r tu blaen a chymryd rhan ar lefel fanylach / weithredol lle bo angen er mwyn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cael ei chefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod sefydlu hwn, ac nad yw cyfleoedd yn cael eu colli.

## Cyfrifoldebau Allweddol a Rheolaeth Llinell

Byddwch yn cefnogi'r Bwrdd i bennu strategaeth y bartneriaeth a sicrhau bod Cynllun Busnes PACD yn cael ei gyflawni. Un elfen hanfodol o'r rôl gychwynnol fydd sefydlu'r Bartneriaeth yn weithredol, gan gynnwys datblygu a gweithredu systemau, prosesau, polisïau ac asedau.



# Cyfarwyddwr Rheoli




## Arwain y Dyfodol:


- Cydweithredu gyda'r Bwrdd i ddatblygu a chyflwyno’r Strategaeth ar gyfer PACD a sicrhau bod adrodd ac atebolrwydd clir yn eu lle.
- Rheoli’r tirlun rhanddeiliaid cymhleth gan feithrin partneriaethau ar draws y rhanbarth sy’n sbarduno arloesi, twf a newid system gyfan mewn gweithgarwch corfforol, chwaraeon, iechyd a lles.
- Sefydlu partneriaethau masnachol, nawdd a chyfleoedd incwm a hefyd codi proffil gweithgarwch corfforol a chwaraeon, iechyd a lles.
- Bod yn eiriolwr ar ran PACD, gan gynrychioli'r sefydliad mewn grwpiau strategol, gan ddylanwadu ar agendâu gwleidyddol, a sicrhau bod ymdrechion yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a pholisïau perthnasol eraill y llywodraeth.

# Cyfarwyddwr Rheoli



## Arwain gydag Eraill:

- Meithrin perthnasoedd gwaith cadarn gyda Chadeirydd a Bwrdd PACD, gan ddarparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a deinamig a hefyd meithrin diwylliant o ddysgu a datblygu parhaus.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol, seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol, CRhC, partneriaid rhanbarthol, sefydliadau masnachol a sefydliadau trydydd sector.
- Sefydlu a chadarnhau rhwydweithiau i hyrwyddo gwerth gweithgarwch corfforol a chwaraeon yng nghymuned Canolbarth y De ac ymgorffori negeseuon allweddol i sbarduno cyfranogiad lleol a chanlyniadau lleol gwell sy'n cyd-fynd â gweledigaeth PACD.



# Cyfarwyddwr Rheoli




## Arwain ar gyfer Canlyniadau

- Arwain ar weithredu Strategaeth PACD gan sicrhau bod systemau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle i adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r Bwrdd a phartneriaid cyllido.
- Rheoli adnoddau PACD yn effeithlon, goruchwylio rheolaeth ariannol gadarn a datblygu ffrydiau incwm amrywiol i ddiogelu cynaliadwyedd tymor hir y sefydliad.
- Sicrhau bod PACD yn cadw at yr holl ofynion rheoleiddio, gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu, cydraddoldeb, amrywiaeth a rheoliadau ariannol, gan gefnogi'r Bwrdd i fodloni safonau llywodraethu a chyfreithiol.
- Nodi, datblygu a chofnodi data fel sail i benderfyniadau sy'n cael effaith leol berthnasol.
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus, a hefyd ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg yn egwyddorion ac arferion y sefydliad.

## Arwain fy Hunan:

- Dangos didwylledd, tegwch a gwerthoedd cadarnhaol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eraill.
- Meithrin ymddiriedaeth gyda thimau a phartneriaid ac ymrwymo i ddatblygiad personol parhaus a gwelliant parhaus drwy gofleidio heriau a cheisio adborth rheolaidd.

# Manyleb y Person

## Meini Prawf Hanfodol:

- Tystiolaeth sylweddol neu brofiad clir ac effeithiol mewn swydd arwain.
- Tystiolaeth sylweddol o arwain a gweithredu gweledigaeth a strategaeth.
- Tystiolaeth sylweddol o waith partneriaeth llwyddiannus sydd wedi cyflawni amcanion yr holl bartneriaid.
- Profiad sylweddol o gynllunio busnes, rheolaeth ariannol, cyllidebu a gweithredu prosiectau'n llwyddiannus.
- Profiad clir o reoli prosiectau cymhleth yn llwyddiannus a gweithredu newid ar lefel sefydliadol.
- Tystiolaeth sylweddol o wneud penderfyniadau ar sail data sydd wedi arwain at wella gwasanaethau.
- Profiad o roi strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithiol ar waith.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Profiad sylweddol o gyflawni newid yn gyflym.
- Gwerthoedd personol sy'n cyd-fynd â CSAP a sefydliadau partner.

## Meini Prawf Dymunol:

- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.



# Gwybodaeth Bellach a'r Broses Recriwtio



CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP | PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE

## Tâl:

Bydd y Cyfarwyddwr Rheoli yn derbyn taliad o £70,000 i £80,000 y flwyddyn (ynghyd â phecyn pensiwn). Bydd yr holl gostau ychwanegol a rhesymol sy'n codi wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau'n cael eu had-dalu yn unol â Pholisi Cyllid a Gweinyddu PACD.

## Oriau:

Llawn amser, oriau gwaith hyblyg o fewn cyfnodau craidd. Mae disgwyl efallai y bydd angen i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol fynychu digwyddiadau / cyfarfodydd y tu allan i gyfnodau craidd.

## Lleoliad:

Gweithio o bell, hyblyg gyda disgwyl y bydd angen ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ar draws y rhanbarth.

## Sut i Ymgeisio

Dyddiad Cau ar gyfer Ymgeisio: **Dydd Gwener 14eg Chwefror 2025**

Cyfweliadau: **Dydd Iau 20 Mawrth 2025**

Os ydych chi'n feddyliwr strategol gydag ymrwymiad llwyr i wella iechyd, lles a hapusrwydd pobl yng Nghanolbarth y De drwy gyfranogiad actif gydol oes mewn chwaraeon a hamdden corfforol a rhagoriaeth arweinyddiaeth, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Fel rhan o'ch cais, cyflwynwch y canlynol os gwelwch yn dda:**

- Eich **CV cyfredol** yn manylu ar eich profiad proffesiynol, cefndir addysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n cefnogi eich cais.
- **Llythyr cais** (2 dudalen A4), yn tynnu sylw at eich addasrwydd ar gyfer y rôl, gan gyfeirio at y gofynion a geir ym manyleb y person. Amlinellwch eich profiad perthnasol a'ch gweledigaeth ar gyfer cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De.

Dylech e-bostio eich CV a'ch llythyr cais atom ni i **hr@cobalt-hr.co.uk**.

Defnyddiwch y llinell bwnc: "Cais Cyfarwyddwr Rheoli – **[Eich Enw Llawn]**."

## Ymholiadau a Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o fanylion am y rôl neu i drafod eich cais, cysylltwch â Kerry Chown ar e-bost ar **kerry@cobalt-hr.co.uk**

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno i Cobalt HR brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac edrychwn ymlaen at ystyried eich cais chi. Diolch i chi am eich diddordeb mewn cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De. Pob hwyl i chi gyda'ch cais!